20 Ionawr 2005

Cychwyn Newydd: Dvana'n Mynd Ar-lein

Pan ddyfarnwyd doethuriaeth i Katherine Bean, 35 oed o Fae Colwyn, am ei sgiliau mewn peirianneg electronig 5 mlynedd yn ôl, profodd y gall menywod gael gyrfaoedd llwyddiannus mewn diwydiant fu gynt yn denu dynion yn bennaf.

Fel arbenigwraig adnabyddus yn ei maes, mae Dr. Bean yn awr yn lansio ei busnes dylunio gwe a chefnogi TG ei hun, 'Dvana Consulting', gyda'r nod o alluogi busnesau bychain a chanolig i dyfu mewn economi sydd yn gynyddol fyd-eang a chysylltiedig.

Meddai, "Pan ddechreuais i astudio am fy ngradd gyntaf ddiwedd yr 80au, dim ond 10% ar y cwrs oedd yn fenywod. Mae pobl yn cymryd yn ganiataol nad yw menywod yn gyffredinol eisiau dilyn gyrfaoedd mewn cyfrifiaduron ac electroneg."

A hithau'n blentyn yng ngogledd Cymru, dechreuodd diddordeb Katherine mewn cyfrifiaduron yn yr ysgol, ac wedi graddio a chael swydd gydag IBM, aeth ei gyrfa â hi i'r Unol Daleithiau.

"Bûm yn gweithio yn America am 6 blynedd, gan fyw i ddechrau yn Arizona ac wedyn yn Colorado, yn gweithio i gwmnïau mawr oedd yn datblygu meddalwedd, yn dylunio meddalwedd, datrys problemau, rheoli a TG. Pan chwalodd fy mhriodas llynedd, penderfynais ddychwelyd i Gymru i barhau fy ngyrfa yma," esboniodd Katherine.

Yr oedd yn benderfynol o ddefnyddio ei harbenigedd i redeg ei busnes ei hun, cysylltodd Katherine ag Asiantaeth Fenter Conwy, a'i rhoes mewn cysylltiad â phrosiect Menter Merched Cymru Chwarae Teg.

Un o'r problemau mwyaf oedd yn wynebu Katherine wedi symud yn ôl o UDA, rhaid oedd iddi lunio rhwydwaith newydd o gysylltiadau busnes.

Medrodd Michelle Nicholls, ymgynghorydd Katherine yn Chwarae Teg, ei chyflwyno i grwpiau rhwydweithio yn yr ardal, yn ogystal ag annog ei syniad busnes cychwynnol.

Meddai Katherine, "Roedd y gefnogaeth gefais i gan dîm Chwarae Teg yn wych. Maent wedi rhoi i mi'r gefnogaeth bersonol a'r cyngor yr oedd arna'i ei angen, yn enwedig pan gefais ddamwain car llynedd, a oedodd fy nghynlluniau busnes am lawer o fisoedd.

"Mae cymaint o wahaniaeth yn y ffordd mae busnes yn gweithio yma yn y DU ac UDA, a diolch i'r cwrs y bûm arnynt gyda Chwarae Teg, medrais ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i lwyddiant."

Gan obeithio y gallai'r busnes un dydd fynd yn rhyngwladol, mae Katherine hefyd yn cynnig dylunio graffig, nwyddau papur priodas a hyfforddiant TG trwy'r cwmni.

Meddai Michelle Nicholls, "Mae Katherine yn esiampl wych o fenyw sydd wedi goresgyn yr holl stereoteipiau i lwyddo mewn gyrfa yn ei dewis faes. Wedi gweithio i rai o gwmnïau mwyaf y byd, mae gan Katherine gyfoeth o brofiad y bydd yn awr yn ei ddefnyddio er lles busnesau yma yn y gogledd."

Yn ddiweddar, mae Chwarae Teg hefyd wedi lansio prosiect 'Ready SET Go' gyda'r nod o fynd i'r afael ag integreiddio cynyddol menywod i'r gweithlu, gan dargedu gwyddoniaeth, peirianneg a thechnoleg a phroffesiynau lle mae menywod, fel Katherine, wedi eu tangynrychioli yn draddodiadol.

Yn ogystal â chynnal menywod mewn gyrfaoedd, bydd y prosiect hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr ac athrawon i ostwng y rhwystrau sydd yn dal yno ac yn atal menywod rhag gweithio.